Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Babanod Coedmawr a Ysgol Glanadda ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r digyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostynedgig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420

(Cyfnod Ymgynghori Statudol 10 Ebrill 2018 – 22 Mai 2018)

Derbyniwyd 68 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol

| Sylwadau | | | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cefnogaeth** | | |
| 1.1 | Hapus iawn bod y Garnedd yn cael Ysgol newydd/ Fel athro yn ysgol y Garnedd, rwy'n falch iawn o weld fod yr ysgol yn cael adeilad/ysgol newydd. Mae'r diffyg lle yn yr adeilad presennol wedi bod yn gur pen ers blynyddoedd/ Yn falch bod y Garnedd yn cael ysol newydd/ Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod angen adeilad newydd i Ysgol y Garnedd. mae'r cynlluniau yn edrych yn gyffrous ond mae llawer ohonom yn poeni am y diffyg lle y tu allan/ Edrych ymlaen cael adeilad newydd sy'n cynnig mwy o le yn y dosbarthiadau a hwyluso'r dysgu/Mae cynlluniau newydd y Garnedd yn edrych yn anhygoel, ac ymddengys eu bod yn darparu lle gwych ar gyfer addysg a dysgu/ Diolch am fod yn rhan o'r ymgynghoriad rydym ni fel staff yn falch iawn o gael Ysgol newydd i'r Garnedd./ Yn croesawu bod y Garnedd yn cael ysgol newydd/ Diolch Cyngor Gwynedd!<br>yn Croesawu fod Ysgol newydd yn dod i'r Garnedd. /Croesawu adeiladu ysgol newydd i Ysgol y Garnedd/ Croesawaf yn fawr y newyddion fod ysgol newydd i'r Garnedd: hen bryd: newyddion gwych!/ Rydw i'n gyndyn yn cefnogi opsiwn 3 y cynllun, sef cau Ysgol Glanadda a Choed Mawr ac adeiladu adeilad newydd mawr i Ysgol Garnedd. Deallaf, fel rhan o'r opsiwn hwn, fod adeilad newydd yn cael gynnig ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes os caiff arian ei ryddhau ar gyfer Band B. Mae'n drist bod rhaid cau Glanadda a Choed Mawr. Ond mae ysgol fwy a ariennir yn rhannol gan gronfeydd o ddatblygiad newydd yn y ddinas yn gyfaddawd rhesymol. / Yr hyn y mae rhieni ei eisiau, ar y cyfan, yw ysgol leol dda i'w plant. Mae'r mesurau a gynigir gan Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn mynd yn bell i fynd i'r afael â hyn. | 13 | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol yma fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.<br><br>Mae sefyllfa bresennol ysgol y Garnedd yn darparu addysg i 305 o blant (derbyn-blwyddyn 6) ar safle sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 210 o blant, gyda nifer o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas gyda maint dosbarthiadau yn rhy fach. Yn ystod arolwg cyflwr ac addasrwydd annibynol a wnaed gan Faithful&Gould ym Medi 2016, adnabuwyd fod cyflwr yr adeilad wedi ei gategoreiddio yn C gan adnabod nifer sylweddol o ddiffygion. Mae rhannau o'r adeilad o wneuthuriad coed sy'n anodd iawn i'w gynnal erbyn hyn. Er bod yr ysgol yn ymdopi yn dda gyda'r sefyllfa, mae'n bellach yn anghynaladwy.<br><br>Mae agweddau o'r dyluniad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd yn cynnwys elfennau o'r arfer orau yn sgil prosiectau blaenorol o fewn Rhaglen Ysgolion 21G. Er engraifft, defnyddir nodweddion arloesol megis toiledau mewn ardal agored i atal bwlio, a chynhigir gofodau dysgu hyblyg. |
| 1.2 | Fel ymarferydd gofal plant proffesiynol, rwy'n croesawu cynnig y cynllun newydd, cyhyd â bod anghenion y plentyn unigol yn cael eu hystyried yn ofalus | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Yn gyntaf, credaf fod y prosiect yn un bositif i'r ardal leol, ac yn y tymor hir bydd yn llwyddiant. | |  <br>Y nod yw bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfarch dyheadau strategol Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddarparu darpariaeth addysg, byddai hyn yn cynnwys:<br>• Gwell cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch<br>• Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael<br>• Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion<br>• Rhyddhau cyllideb i'w wario ar blant o fewn y gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau<br>• Cysoni nifer yr ysgolion i gyfarch y galw<br>• Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion. Gan leihau'r gost fesul disgybl i hafal neu well na'r cyfartaledd Sirol o £3,777 i'r Cynradd.<br>• Gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd<br>• Gwella'r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchfyd ddysgu 21ain Ganrif<br>• Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn |
| 1.4 | Rydym yn nodi fod ystyriaeth lawn wedi ei wneud ar gyfer lles ac amodau gwaith peneithiaid yn y ddogfen | | |
| 1.5 | Fe'i cydnabyddir a bod perfformiad ysgolion Coed Mawr wedi bod yn is nag y byddai'r rhieni yn ei ddisgwyl. Drwy adeiladu ysgol newydd, fwy, gellir datrys y ddau fater hyn mewn modd cost effeithiol. | | |
| **2.** | **Dyluniad ac adnoddau'r ysgol newydd** | | |
| 2.1 | Yn ól y cynlluniau bydd Ysgol y Garnedd yn berchen y cae ysgol presennol. Os yw hyn yn wir byddai'n rhaid cael toiledau ac adnoddau cymorth cyntaf ar y safle hwnnw. Byddai mynd yn ôl i'r ysgol newydd yn rhy bell/Gobeithio yn fawr y bydd gan Ysgol y Garnedd gae ysgol ar safle yr ysgol newydd hefyd, Byddai'n rhy bell i blant y babanod er enghraifft gerdded i'r cae ysgol presennol/Pellter y cae "pêl | 15 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | droed" yn achosi rhywfaint o gonsyrn. Beth petai plentyn yn cael damwain/angen toiled a.y.b./Byddai cael y defnydd o gae chwarae Ysgol Friars yn gwella'r sefyllfa yn fawr. Mae'n ormod i ddisgwyl i blant oed cynradd gerdded yn holl ffordd ar hyd y llwybr at gae chwarae mewn lle arall. Mae'n anymarferol iawn.Nid oes toiledau ar y cae chwarae arfaethedig. Ni fydd y plant yn gallu gadael y cae i fynd i'r toiledau heb aelod o staff. Nid yw hyn yn mynd i weithio.Pryderau bod cae chwarae yn bell o adeilad yr ysgol.Gwersi Addysg Gorfforol, Yn ystod y wers bydd plant angen myn di'r toiled!Cario offer!!Tywydd – os yn cychwyn glawio'n ganol gwers AG – dipyn o ffordd i gerdded yn ôl/Pwysig bod plant yn cael <u>cae</u> i chwarae – amser chwarae er mwyn eu datblygiad cymdeithasol a chorfforol yn naturiol/Ar hyn o bryd mae lleoliad y cae chwarae'n rhy bell o safle'r ysgol. Ni fyddai'n ymarferol cynnal gwersi Addysg Gorfforol pe bai'r cynlluniau'r aros fel hyn./Dim toiledau ger y cae chwarae – mae hyn yn sicr o greu trafferthion o ran goruchwyliaeth – yn arbennig wrth ystyried oedran y disgyblion ieuengaf./Oes yna ddigon o dir chwarae ar gyfer yr holl ddisgyblion yn ystod amser egwyl?/Pryderu bod y cae chwarae llawer rhy bell o'r safle. Plant angen mynd i'r toiled yn ystod y wers addysg gorfforol! Aelod staff yn gorfod mynd á phlentyn i'r toiled – dim digon o oruchwyliaeth. Cario offer yn broblem oherwydd y pellter.<br>Tywydd – sdido bwrw a phawb yn wlyb socian am weddill y diwrnod.<br>Diffyg cae – cyflyru'r chwarae a datblygiad corfforol plentyn.<br>Rhaid cofio am <u>blant</u> – Mae plant wrth eu boddau yn chwarae ar y gwair./Pryderu bod y cae chwarae yn bell a ddim digon o lefydd chwarae ar y gwair./Mae'r cynlluniau'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r pryderon sydd gennyf ynglŷn â'r adeilad presennol. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu na fydd gan y disgyblion fynediad digonol i gaeau glaswellt / chwarae yn ystod amser egwyl. Mae'r ardal tu allan sydd ar gael yn ystod yr amseroedd hyn yn llai na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd a bydd mwy o ddisgyblion yn yr ysgol. Rwy'n gobeithio mynd i'r afael â hyn a chaiff mwy o laswellt ei neilltuo ar gyfer y defnydd hwn./Tudalen 27 "yn darparu ardal chwarae pob tywydd gydag arwyneb tarmac" Rwy'n pryderu na fydd gan yr ysgol gaeau chwarae glaswellt bellach ar gyfer amserau egwyl, rygbi / pêl droed neu ddiwrnodau chwaraeon, hefyd yn gweld post dyddiol 18 Ebrill 2018 , a sut y gall ardal chwarae tarmac fod yn beryglus os na chaiff ei ystyried yn iawn, ystyriwch gadw'r cae chwarae presennol a gyda draeniad priodol y gellir ei ddefnyddio trwy'r flwyddyn, rwy'n deall y byddai cael gwared ar unrhyw ardaloedd gwyrdd o'r ysgol yn arbed arian ar dorri glaswellt ond byddai'n cael effaith ar iechyd a Lles y plant./Nodwyd pryder ynglŷn â'r pellter rhwng y cae chwaraeon a'r ysgol a allai amharu ar ei | | Cytuno gyda'r sylw, mae toiled ar y cae yn cael ystyriaeth gan y tîm dylunio.<br><br>Mae'r cynllun yn cynnwys sawl man chwarae ger yr adeilad ar gyfer plant Ysgol y Garnedd. Dim ond at y cae chwarae ffurfiol fydd angen cerdded ac mae o fewn pellter rhesymol. Bydd yn debyg i'r sefyllfa mewn nifer o ysgolion ar hyd a lled y sir.<br><br>Bydd caeau chwarae ar gael ar gyfer chwaraeon a hefyd ardaloedd arwyneb caled, bydd maint yr ardal yn unol â safonau dylunio ysgolion yr 21ain ganrif.<br><br>Mae asesiad llawn or safleoedd wedi ei wneud ac wedi adnabod y safle yma fel y safle mwyaf priodol ar gyfer sefydlu adeilad newydd Ysgol y Garnedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddefnydd – amser i gerdded disgyblion yno ac yn ôl, effaith tywydd ac ati. / Oes modd lleoli'r cae chwaraeon ar ochr Ysgol Friars o'r ysgol newydd yn hytrach na'r lleoliad presennol, lle fydd defnydd mwy effeithiol yn cael ei wneud ohono? | | |
| 2.2 | Mae'n bwysig bod maes parcio dynodedig i athrawon a staff ysgol newydd y Garnedd. / Angen maes parcio dynodedig i'r staff. Bydd rhaid i hwn fod yn agos at adeilad yr ysgol gan bod angen cario a chludo adnoddau e.e. llyfrau, yn ôl ac ymlaen o'r car i'r dosbarth yn ddyddiol. | 2 | Bydd meysydd parcio dynodedig ar gyfer staff, a bydd y pellter yn rhesymol. Bydd hefyd ardaloedd dadlwytho yn agos at yr adeilad. |
| 2.3 | O ran y gofod y tu allan, i'r cyfnod sylfaen, mae angen cael lle i greu gardd neu ardal ddysgu y tu allan. Mae hyn yn ddisgwyliedig yn y cwricwlwm. / Cyfnod sylfaen – Angen gofod (allanol) wedi ei gau fel bod y tu allan yn rhan o'r dosbarth. Efallai angen gwrych i rannu buarth Adran Iau a gerddi Bl1 a 2. Bl1 a 2 allan yn yr ystafell ddosbarth tu allan a'r plant Adran Iau yn chwarae ac yn swnllyd. | 2 | Mae'r Awdurdod yn cydnabod y sylw yn ymwneud ar gofod allanol a bydd materion perthnasol yn cael ei drosglwyddo ir tîm dylunio.<br><br>Fel rhan or cynllun bydd canopi ac ardal wedi'i ffensio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ymgorffori fel rhan or cynllun. |
| 2.4 | Fel preswylwyr y mae ein cartref yn cefnu'r tir yr adeilad newydd arfaethedig, rydym yn pryderu'n fawr iawn am effaith weledol y strwythur a amlinellir.Nid yw unrhyw dirlunio i leihau effaith weledol ein heiddo ac eiddo cyfagos, wedi ei gynnwys ar y cynlluniau ar hyn o bryd | | Nodir y sylw. Bydd y dyluniad yn ystyried tirlunio ac yn parchu preswylwyr yr ysgol, a sicrhau unrhyw fesurau lliniaru ac unrhyw effaith. |
| 2.5 | Dylid ystyried lleoliad yr adeilad newydd yn ofalus gyda'i leoliad yn agos i Ysgol Friars, ar aflonyddwch y gall gael ei achosi gan plant Ysgol cynradd a Uwchradd wrth fod mor agos yn ystod amser chware tu allan a gwersi. | | Nodir y sylw. Bydd ffens ac ardal o blannu rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd y dyluniad yn sicrhau na fydd effaith negyddol. |
| 2.6 | Mae'r tir a glustnodwyd ar gyfer adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd yn wlyb./Nodwyd yr angen am gadarnhad fod gwaith draenio digonol wedi ei raglennu fel rhan o'r gwaith adeiladu ar safle'r ysgol newydd er mwyn osgoi buarth a chaeau chwarae gwlybion. | 2 | Cynhaliwyd arolygon trwyadl o'r tir a'i ddraeniau ac mae'r Ysgol yn cael ei gynllunio yn unol â hynny |
| 2.7 | Rydym yn bryderus na chawsom ein hysbysu ynghylch adeiladu Ysgol y Garnedd newydd yng nghaeau chwarae ysgol Friars. Caiff hynny effaith ar y Heol, gyda llawer o blant ysgol yn cerdded i fyny ein ffordd a hefyd rhieni yn gyrru i fyny ein ffordd 'breifat' i ollwng y plant. Ceir sibrydion ynghylch system un ffordd, gyrru i lawr i Garnedd a mynd allan yn Rhodfa Penrhos neu i'r gwrthwyneb. Mae'n beryglus tynnu allan o Rhodfa Penrhos gan bod llawer o geir yn cyflymu i lawr Ffordd Penrhos a ceir tro. Mae'n beryglus iawn i blant groesi yno. | | Mae Rheolaeth traffig yn cael ei ystyried yn ofalus yn y fynedfa bresennol i'r Ysgol. Yn unol a unrhyw newidiadau arfaethedig bydd ystyried briodol yn cael ei wneud i reoli materion traffig.<br><br>Nid yw system un ffordd yn cynnwys Rhodfa Penrhos dan ystyriaeth ar hyn o bryd. |
| 2.8 | Nodir yn y tabl yn rhan 6 y dyddiad o "*1 Medi 2020*" ar gyfer "*dyddiad gweithredu*" ysgol newydd Y Garnedd, ond yn rhan 6.6, nodir y disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn "*Pasg 2019*". Onid felly y dyddiad gweithredu cywir ydy Medi 2019?? | | Yn ddarostyngedig ar brosesau statudol Cabinet angenrheidiol bwriedir cwblhau gwaith adeiladu erbyn haf 2020, gyda'r ad-drefnu arfaethedig yn dod yn weithredol ar 1 Medi 2020. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.9 | Nodwyd pryder ynglŷn â'r prinder amser ar gyfer bwydo mewn i ddyluniad terfynol yr ysgol. Er mwyn cwblhau ymgynghoriad ystyrlon, rhaid cael amser digonol i fwydo adborth yn ôl er mwyn siapio'r dyluniad terfynol. | | Mae trafodaethau ar y dyluniad eisoes wedi cymryd lle gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol a byddwn yn parhau i wneud hynny ar hyd y daith. Bydd cynlluniau yn cael eu harddangos yn gyhoeddus yn ystod haf 2018 a bydd gwybodaeth am y cais Cynllunio yn gyhoeddus hefyd. |
| 2.10 | Nodwyd pryderon ynglŷn â dyluniad y man gollwng plant o ran oblygiadau Iechyd a Diogelwch. Credwyd fod angen dyluniad gwell er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Daw'r sylwadau yma o brofiadau trefniadau Ysgol y Garnedd gan gofio'r cynnydd yn y traffig a'r cynnydd yn nifer y gollyngiadau a fydd yn sgîl y cynnydd yng nghapasiti'r ysgol. | | Mae arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar Ffordd Penrhos ac mae arolygon o sut mae disgyblion yn teithio i'r Ysgol wedi cael eu gwneud. Bydd y Tîm Dylunio yn gweithio i liniaru risgiau llif traffig, cerddwyr a beicwyr a chreu llwybrau diogel i'r Ysgol.<br><br>Bydd dyluniad llif traffig a llwybrau cerddwyr yn cael ei ystyried yn ofalus gan y tîm dylunio i sicrhau bod y dyluniad yn ddiogel. |
| 2.11 | Oes modd ailystyried lleoliad yr ysgol newydd o fewn y safle er mwyn gwneud y mwyaf o oleuni'r haul o gofio lleoliad arfaethedig yr ysgol – mewn pant ac yng nghysgod coedwig aeddfed? Os yw golau naturiol o fewn yr ysgol yn uwch ceir effaith fwy positif ar y disgyblion. | | Rydym yn cytuno bod golau naturiol yn bwysig i ddysgu ac mae'r dyluniad yn anelu at wneud y defnydd mwyaf posibl o olau naturiol mewn mannau dysgu. |
| 2.12 | Oes modd gwarchod defnydd maes parcio Ysgol y Garnedd ar gyfer rhieini Ysgol y Garnedd yn unig gan nodi hyn ag arwyddion penodol a'i weithredu drwy system reoli benodol?  Byddai hyn yn osgoi ychwanegu at yr oblygiadau Iechyd a Diogelwch.......lle mae rhieni ysgolion Cae Top a Friars yn gollwng eu plant a pharcio'u ceir ym maes parcio Ysgol Y Garnedd. | | Byddwn yn lleoli arwyddion yn y maes parcio yn nodi cyfyngiadau parcio. Bydd unrhyw drefniadau newydd yn sgil y cynllun arfaethedig yn cael eu cyfathrebu i rieni a staff yr ysgol. |
| **3** | **Materion Traffig** | | |
| 3.1 | Cynllun gwych, ond rhaid meddwl ymlaen am y disgyblion yn cerdded i'r ysgol ac yn croesi ffordd Penrhos – sydd yn brysur ac yn beryg./ Mae hwn yn amlwg yn fater pwysig, lle nad yw'r ffeithiau wedi'u sefydlu eto. Mae ffordd Penrhos eisoes yn hynod o brysur yn ystod yr oriau brîg, ac mi fydd y cynnig hwn yn ymestyn y sefyllfa hwn. /Mae'r problemau traffig o amgylch Ffordd Penrhos ar foreau ysgol yn broblem fawr gan ei fod hefyd yn brif ffordd bwydo i Fangor - Ysbyty Gwynedd. Gall yr ardal fod yn grid wedi'i gloi ar gyfer amseroedd gollwng ysgol bore a phrynhawn./ Bod angen crosfan(nau) ar ffordd penrhos. Mewn gwirionedd rwyn credu bod angen ystyried yn ehangach na hynny a rhoi sylw i hyrwyddo y llwybrau cerdded i'r ysgolion, er mwyn lleihau defnydd o'r ceir ayb. Elfen angenrheidiol o hynny yw diogelwch wrth gwrs ond hefyd rhoi ysgogiad i'r rhieni ddewis cerdded fel yr opsiwn gyntaf. Byddai pethau syml fel cyfarwyddiadau ar belmentydd a'r mannau croesi y ffyrdd lai yn ogystal a'r prif ffyrdd yn gallu creu yr awydd a'r tawelwch meddwl fod amryw yn defnyddio yr un llwybrau - ond nid wyf wrth gwrs yn honni bod ag arbennigedd ar y fath bwnc. / Y peth pwysig yw bod yr ystyriaethau yma yn cael eu | 11 | Mae arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar Ffordd Penrhos ac mae arolygon o sut mae disgyblion yn teithio i'r Ysgol wedi cael eu gwneud. Bydd y Tîm Dylunio yn gweithio i liniaru risgiau llif traffig, cerddwyr a beicwyr a chreu llwybrau diogel i'r Ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynnwys o'r cychwn ac nid fel rhyw ol-atodiad yn hwyr yn y dydd. Wrth gael eu cynnwys yn y cynllun gwreiddiol yna gellid sicrhau bod cyllid perthasol yng nghyllid y cynllun. / Ystyriwch y traffig yn yr ardal wrth gynllunio ac yn arbennig adeiladu. / Anghytunaf efo cau ysgolion Glan Adda a Choed Mawr, oherwydd traffig, mynediad i addysg lleol, ymysg rhesymau eraill. Mae *gridlock* ar Ffordd Penrhos fel ag y mae ar adegau brig. Bydd cau'r ysgolion yma ond yn cynyddu'r traffig ac yn gneud teithio yn fwy peryglus. Bydd hyn yn lleihau'r cerddwyr a'r beicwyr oherwydd pryderon rhieni am ddiogelwch. / Hoffwn weld cynlluniau cadarn ar gyfer llwybrau beicio a cherdded diogel i'r ysgol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau. / Mae angen gofal dyledus i leoliad ysgolion ar gyfer ystyriaethau traffig a hefyd ei gwneud yn esmwyth i rieni gerdded eu plant i'r ysgol. / Credaf fod yr opsiwn a awgrymir yn mynd i amddifadu plant ardal eang o Fangor o sefydliad addysgol yn eu cynefin gan yrru plant ifanc i ganol ardal o draffig sydd yn eithriadol brysur yn barod ac nid oes unrhyw ystyriaeth o hynny yn y cynnig. Ymhellach nid oes unrhyw ystyriaeth sylweddol wedi ei wneud i geisio lleihau y traffig ar ffordd Penrhos ac o godi ysgol gyda 420 o ddisgyblion ar safle cyfagos i'r Garnedd tydi hynny ond yn mynd i waethygu y sefyllfa sydd yn annerbynniol yn barod / Ar bwynt cyffredinol teimlaf fod y cynnig a awgrymir yn colli cyfle i wneud gwahaniaeth i sefyllfa draffig y ddinas sydd yn hollol 'gridlock' ar brydiau yn y dydd. | | |
| 3.2 | Fe wyddoch hefyd bod dinas Bangor yn disgwyl denu arian o gynllun gwella adnoddau canol y dref a byddai cysoni yr anghenion yr ysgolion gyda rhai o'r cynlluniau yna yn gallu arwain at drawsnewid cerdded yn y ddinas. / Dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i ail agor ffordd Bryn Tawel gan adael i draffig ddod oddi ar pont Menai a mynd o gwmpas cylchfan y cae peldroed ac yna i fyny Bryn Tawel. Ni fyddai yn or-gostus i wneud a byddai yn rhoi cyfle i bob gael dewis ychwanegol o fynediad i ysgolion Tryfan, Friars a Cae Top. /Rwyf hefyd ar gyngor y ddinas dros ward Glyder ac rydym fel cyngor wedi bod yn pwyso i ehangu yn sylweddol ardaloedd cyfyngu cyflymdra cerbau i 20mya. Os yw mwy o blant i'w hysgogi i gerdded yna byddai hynny ynddo ei hyn yn gyfraniad mawr, ac felly awgrymaf eich bod yn rhoi pwysau ar yr adran briffyrdd i wneud argymhellion perthnasol yn y mater yna. | 3 | Mae'r sylw wedi nodi. Byddwn yn trafod yr awgrymiad gyda'r Adran Priffyrdd. |
| **4** | **Materion Adnoddau Dynol** | | |
| 4.1 | Rwyf o'r farn y bydd staff Ysgol y Garnedd presennol yn parhau i weithio'n awtomatig yn yr adeilad newydd. A yw hyn yn deg? (Yr wyf yn cyfeirio at opsiwn 3 ac opsiwn 10.) / Gan fod yr ysgol yn cael ei adnabod fel "Y Garnedd Newydd", fy nealltwriaeth i yw bod gan holl staff presennol y Garnedd "hawl" awtomatig i'w swydd, tra byddai angen i staff yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt wneud cais am | 2 | Oherwydd mai adeilad newydd yn unig mae ysgol y Garnedd yn ei gael, yna ni ragwelir y byddai newid i staff yr ysgol oni bai y bydd cynnydd yn y nifer disgyblion a bod angen adolygu'r strwythur staffio er mwyn diwallu'r angen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | unrhyw swyddi dros ben. Rwy'n anghytuno am hyn am y rhesymau canlynol: Tegwch - credaf y dylai'r holl staff gael eu trin yn gyfartal, naill ai i gyd yn cael swydd, neu i gyd yn ofynnol i wneud cais am y swyddi sydd ar gael. | | |
| 4.2 | Yr wyf yn bryderus ynglŷn â sefyllfa staffio. Wedi cael gwybod bod cau Coedmawr a Glanadda yn arwain at golli swyddi ac mae diswyddiadau yn ofnadwy, er na fydd Garnedd yn dioddef unrhyw faterion staffio, rydyn ni bellach yn weithlu di-foesol gyda phobl sydd eisoes yn chwilio am swyddi mwy parhaol, yn poeni am yr hyn a fydd yn digwydd yn y 2 flynedd nesaf. Dylai hyn fod yn gyfle i'r cyngor gael y "gorau orau" ar eu cyfer, er mwyn sicrhau'r addysg orau i ddisgyblion newydd Garnedd. Yn lle hynny, mae'n teimlo y bydd unigolion sy'n gweithio'n galed yn colli allan, sef symudiad a fydd yn effeithio ar y plant yn y pen draw. Mae bwrdd yn y sesiwn galw heibio yn honni y bydd y symudiad "yn sicrhau trefniadau priodol i ddisgyblion Coedmawr a Glanadda" fodd bynnag, dywedwyd wrthym bydd hyd yn oed y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Ychwanegol yn colli eu swyddi Mae rhai o'r Cynorthwywyr hyn wedi bod yn gweithio gyda phlentyn penodol ers blynyddoedd. Gallai colli'r gefnogaeth gyson a'r berthynas honno o blaid Cynorthwy-ydd newydd fod yn niweidiol i rai plant ac yn sicr yn mynd yn erbyn "sicrhau trefniadau priodol", wedi'r cyfan, dylai bob amser fod y plant a ddaeth yn gyntaf. / Yr unig ystyriaeth i les ac amodau gwaith athrawon ydy'r effaith o ddosbarthiadau maint llai o ran niferoedd.Mae'r ddogfen yn nodi bydd cau Coed Mawr a Glan Adda yn golygu bydd diswyddiadau. Bydd disgyblion y ddwy ysgol yma, yn debygol, yn symud i'r ysgol newydd. Bydd felly angen rhagor o staff ar yr ysgol newydd ar gyfer y cynnydd mewn disgyblion ac hefyd y dyhead uchod o gael maint dosbarthiadau yn llai, Mae MNASUWT yn synnu fod yna ddim ystyriaeth wedi bod i'r dull yma o ymdrin â staff. Mae cyfle yma i fedru defnyddio staff Coed Mawr a Glan Adda i ddiwallu dyhead yr ysgol newydd yn llawn. Bydd hyn yn lleihau yn fawr ar yr angen i ddiswyddiadau gorfodol; bydd yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r dysgwyr i'r ysgol newydd i blant Coed Mawr a Glan Adda a bydd yn sicrhau dosbarthiadau bychain eu maint. | 2 | Os bydd Ysgol Babanod Coed Mawr a Glanadda yn cau, yna bydd swyddi presennol y staff yn dod I ben. Bydd y Cyngor yn gwneud bob ymdrech posib I geisio rhoi cymorth I staff I'w ad leoli. Oherwydd y dewis sydd gan rieni mewn perthynas a gwneud cais am fynediad I ysgol, ni fyddai cadarnhad ble fyddai disgyblion Ysgol Babanod Coed Mawr a Glanadda yn mynychu. Yn ogystal, hawl corff llywodraethol unigol unrhyw ysgol yw penderfynu ar bwy maent yn eu benodi I'w hysgolion, felly nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa I fynnu bod corff llywodraethol yn penodi staff penodol. |
| **5** | **Materion Cyllidol** | | |
| 5.1 | Synnaf yn fawr o weld y daflen cyllideb (cost fesul disgybl) sydd yn cael ei harddangos. Gwelaf bod ysgolion eraill yn cael mwy o arian (cost fesul disgybl) na'r Garnedd. Oni ddylai pob plentyn gael yr un cost fesul disgybl? Plentyn yw plentyn lle bynnag y bo/pa bynnag ysgol y mae'n ei mynychu. / Fel llywodraethwr Ysgol Glanadda ac Ysgol Babanod Coedmawr teimlaf fod y cynnig o fynd efo opsiwn tri yn hytrach nag opsiwn deg wedi ei selio ar gam ddefnydd o ystadegau. Gan bod nifer disgyblion yn llai yn yr ysgolion uchod mae mesur cost y pen yn mynd i fod yn llawer | 2 | Ar sail cyfanswm dyraniad ysgol, mae gwahaniaeth 'cost y disgybl' yn gallu amrywio o ysgol i ysgol oherwydd y canlynol –<br>• Gwarchodaeth lleiafswm staffio<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Nifer disgyblion sy'n gymwys i ginio am ddim<br>• Arwynebedd yr adeilad a'r tiroedd<br>• Math a defnydd o Ynni |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | uwch na'r ysgolion efo mwy o ddisgyblion. Tydi defnyddio hwnnw fel cyfiawnhad am yr opsiwn arall ddim yn gywir ac yn rhoi yr argraff fod y corf llywodraethol ddim hefo rheolaeth ar eu cyllideb sydd eto yn anghywir. | | • Trethi Annomestig<br>• Cyfartaledd cyflog staff dysgu<br><br>Mae 'cyllid y disgybl' yn ôl oedran yr un faint o ysgol i ysgol yn y sector cynradd – meithrin £1,000 / Cyfnod Sylfaen £2,500 / Cyfnod Allweddol 2 £2,600 |
| 5.2 | Byddai dod â Coedmawr a Glanadda ar un safle yn achub y cyngor yn ariannol. | | Yn arferol, byddai arbedion ariannol net (wedi ystyried unrhyw gynnydd yng nghost cludiant disgyblion) yn deillio o safle yn cau. |
| **6** | **Arall** | | |
| 6.1 | Fel preswylydd sy'n byw ger Ysgol Babanod Coed Mawr, rwyf yn gofyn am eich polisi ôl-ddefnydd ar gyfer y safle uchod? / Fel preswylydd sy'n byw yn yr ardal gyfagos, yr wyf yn pryderu am yr hyn a fydd yn digwydd i'r Ysgol Babanod wrth gau, a gofynnaf, fel trigolion, y byddwn yn cael ein diweddaru, a gobeithiwn y bydd y gymuned yn cael ei hysbysu am y polisi ôl-ddefnydd. Diolch. | 2 | Mae gan Gyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd penodol ar gyfer safleoedd ysgolion. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei wireddu, bydd trafodaethau ol-ddefnydd safleoedd sydd ddim yn parhau'n rhan o'r cynnig yn cael eu cynnal yn unol a'r polisi. Os oes dymuniad lleol, bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion Adfywio gefnogi'r gymuned wrth ystyried unrhyw ol-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r cynnig. |
| 6.2 | <u>Brandio</u> - Nid wyf yn teimlo bod y brand "Y Garnedd Newydd" yn dda gan y gallai greu anfodlonrwydd ymysg staff a disgyblion y Garnedd gyfredol yn gorfod rhannu eu hysgol gyda phobl o'r tu allan. Byddai'n well galw'r ysgol trwy rywbeth cwbl newydd, gan mai dyna mewn gwirionedd yw beth yw - ysgol newydd. Mae angen cynrychiolaeth o bob ysgol i Lywodraethwyr, staff (uchod) fel y bydd ar gyfer disgyblion. | | Fel rhan o'r cais mae adeilad y Garnedd yn anaddas felly yn derbyn adeilad newydd ar gyfer yr ysgol yn Medi 2020.<br><br>Ni fydd newidiadau i drefniadau llywodraethu na rheolaeth yr ysgol fel rhan o'r newid arfaethedig.<br><br>Bydd Ysgol y Garnedd yn symud i'r adeilad newydd erbyn tymor yr Hydref 2020. |
| 6.5 | Mae angen ysgol newydd ar Ysgol Tryfan, ar fyrder. | | Mae ystyriaeth ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd y dalgylch wedi ei gynnwys fel rhan o weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal. Gweler isod:<br><br>**Opsiwn 3:** Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.<br><br>Mae bwriad i gynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliad y sector uwchradd yn fuan. |
| 6.6 | Yr hyn sy'n peri'r penbleth mwyaf i mi yw bod dwy ysgol, y gwn amdanynt, ar y cynnig hwn yn ddiweddar wedi cael adeiladau hollol newydd, ac yn cael ei hystyrierd ar gyfer addasiadau/gwelliannau yn y cyllid cyfredol (Band A). / Nid oes gan Ysgol Glanadda unrhyw faterion adeiladu ac os cytunodd y cyngor i opsiwn 10, byddai'n cadw ysgol gymunedol yn fyw mewn ardal ddifreintiedig. | 2 | Yn unol a tudalen 25 o'r ddogfen ymgynghori rhan 6.5 Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau.<br><br>Mae angen gwaith ar bron bob elfen o'r adeiladwaith Ysgol y Garnedd erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o'r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i'w |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
gynnal yn anodd. Mae nifer y disgyblion yn yr Ysgol yn fwy na chapasti swyddogol yr Ysgol, gyda nifer o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Mae maint y dosbarthiadau yn rhy fach.
Nid yw Ysgol Babanod Coedmawr mewn cyflwr cystal ag mae angen ei ail weirio, adnewyddu toeau fflat, ffenestri newydd a gwaith ar y gegin. Mae modd parhau ei gynnal ond bydd nid yw o adeiladwaith safonol a bydd angen buddsoddiad parhaus i’w gynnal. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol. Mae’r safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu
Mae Ysgol Glanadda yn adeilad carreg Fictorianaidd ei natur ac mae modd ei gynnal yn barhaus. Mae angen gwaith ar y ffenestri, to a’r gegin. Fel arall mae mewn cyflwr derbyniol. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.
<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Categori Cyflwr</th><th>Diffygion Addasrwydd a Chyflwr</th><th>Cost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen</th></tr>
<tr><td>Ysgol y Garnedd</td><td>C</td><td>
<ul>
<li>Addasrwydd – Nifer y dysgwyr yn yr Ysgol yn fwy na chapasati swyddogol yr Ysgol. Nifer o ddysgwyr yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Maint y dosbarthiadau yn rhy fach.</li>
<li>Cyflwr –
<ul><li>Mae angen gwaith ar bron bob elfen o’r adeiladwaith erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o’r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i’w gynnal yn anodd. Yn y dyfodol byddai angen adnewyddu rhannau sylweddol o’r adeilad a hyd yn oed wedyn byddai’n parhau i fod yn anaddas i bwrpas.</li></ul></li>
</ul></td><td>-</td></tr>
<tr><td>Ysgol Glanadda</td><td>B</td><td>
<ul>
<li>Addasrwydd - Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.</li>
<li>Cyflwr –
<ul>
<li>Angen adnewyddu’r ffenestri</li>
<li>Angen uwchraddio sustem awyru’r gegin</li>
<li>Angen adnewyddu fargoed y to</li>
<li>Angen paentio’r tu allan</li>
</ul></li>
</ul></td><td>£85,000</td></tr>
<tr><td>Ysgol Babanod Coedmawr</td><td>B</td><td>
<ul>
<li>Addasrwydd – Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Dosbarthiadau yn rhy fach. Safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu.</li>
<li>Cyflwr –
<ul>
<li>Angen adnewyddu’r sustem drydanol.</li>
<li>Gwaith i’r iard chwarae</li>
<li>Angen adnewyddu’r ffenestri</li>
<li>Angen adnewyddu rhannau o’r gegin gan gynnwys gwella’r awyriant.</li>
<li>Angen adnewyddu’r toeau fflat</li>
</ul></li>
</ul></td><td>£245,000</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
<tr>
<td>6.7</td>
<td>Nodwyd pwysigrwydd perthynas iach a pharchus gydag Ysgol Friars wrth gynllunio’r ysgol. Ni fydd ffens ac ychydig o goed rhwng y ddwy ysgol yn ddigonol i ddiogelu plant iau Ysgol y Garnedd rhag ymddygiad annerbyniol bosib (e.e. bwlio, bygythiadau) disgyblion llawer hŷn Ysgol Friars.</td>
<td></td>
<td>Bydd ffiniau’r ysgolion yn cael eu cynllunio fel rhan o’r dyluniad i sicrhau fod trefniadau addas ar gyfer y ddwy ysgol.</td>
</tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6.9 | Cydnabyddir bod Ysgol y Garnedd, ysgol cyfrwng-Cymraeg benodol, wedi llwyddo i gyflawni ei hamcan ers ei hagor ddeugain mlynedd yn ôl, ac mae ei phoblogrwydd amlwg yn tystio i safon yr addysg a geir yno ac i ymroddiad ei hathrawon a'i gweithwyr eraill o dan amgylchiadau anodd. | | Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd CA1. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. |
| **7** | **Y broses ymgynghori / dogfen ymgynghori** | | |
| 7.1 | Yn gyntaf hoffwn nodi dau gamgymeriad yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog nid ysgol cyfrwng y Gymraeg. Roedd yr arolygiad diweddaraf yn 2017, nid yn 2011 a derbyniodd yr ysgol bum dyfarniad "Da". Nid oedd unrhyw ddilyniant Estyn. | | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y sylwad. Mae'r wybdoaeth berthnasol wedi ei gynnwys yn y tabl isod. (tables below) |

| | | [illegible] |
|---|---|---|
| Lleoliad yr Ysgol / Location of the school | | [illegible] |
| Ystod Oedran / Age range | | [illegible] |
| Categori'r Ysgol / School's category<br>Ysgol Gymunedol (CS) Community School<br>Gwirfoddol dan Gymorth (VA) Voluntary Aided<br>Gwirfoddol dan Reolaeth (VC) Voluntary Controlled<br>Ysgol Uwchradd Sirol (CS) County Secondary School | | [illegible] |
| Categori Cyfrwng Iaith / Language Medium Category | | Dwyieithog / Bilingual |
| Niferoedd o ddisgyblion ar y gofrestr – Medi 2017 / Number of pupils on the register – September 2017 | Meithrin / Nursery | Bl. 7 / Yr. 7-11 |
| | | 1,048 |
| | Derbyn – Bl.6 / Reception – Yr 6 | Bl. / Yr 12-13 |
| | | 227 |
| | Cyfanswm / Total | 1,275 |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr am y pedair blynedd flaenorol / Number of pupils on the register for the previous four years | Medi / September 2016 | 1,213 |
| | Medi / September 2015 | 1,226 |
| | Medi / September 2014 | 1,253 |
| | Medi / September 2013 | 1,188 |
| | Medi / September 2012 | 1,227 |
| Capasiti / Capacity | Meithrin / Nursery | - |
| | Derbyn – Bl.6 / Reception – Yr 6 | 1,318 |
| Llefydd Gweigion Medi 2017 Derbyn – Bl.6 / Surplus places September 2017 Reception – Yr.6 | | [illegible] |
| Rhagamcanion Disgyblion / Pupil Projections | Medi / September 2018 | 1,272 |
| | Medi / September 2019 | 1,288 |
| | Medi / September 2020 | 1,282 |
| | Medi / September 2021 | 1,278 |
| | Medi / September 2022 | 1,274 |
| Data perfformiad Ysgolion (Estyn) / School performance data (Estyn) | | [illegible] (2017) |
| Categori Cyllido Addysg [illegible] | | [illegible] |
| Dyraniad Cyllidol 2017/18 Financial Allocation | | [illegible] |
| Cost y disgybl 2017/18 Cost per pupil | | [illegible] |

Ffynhonnell: Data Medi 2017
Source: September 2017 Data

| | Estyn | | | | | | | Llywodraeth Cymru Welsh Government |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Blwyddyn yr arolygiad Year of Inspection | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Lefel y Dilyniant (os yn berthnasol) Level of Follow-Up (if necessary) | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2017 Welsh Government School Support Category 2017 |
| [illegible] | 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | - | [illegible] |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2 | Yn yr adran 6.16 “Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol”, nid oes sôn am yr Uned Asesu Blynyddoedd Cynnar, sydd ar hyn o bryd wedi ei leoli yng Nghoed Mawr. Mae sôn am y Ganolfan Adnoddau iaith, ond nid yw’r ganolfan yma yng Nghoed Mawr ers Medi 2017.<br>Fedrwch chi, os gwelwch yn dda, edrych ar yr adran yma a newid y wybodaeth i’r hyn sydd yn gyfredol.<br>Uned Asesu Blynyddoedd Cynnar i oedran cyn ysgol i blant sydd ag anhwylderau iaith, oediad iaith, ac i blant sydd wedi cael/neu’n mynd drwy’r broses o diagnosis Anhwylder Sbectrwm Awtistig. | | Ar hyn o bryd mae dwy Ganolfan wedi eu lleoli yn Ysgol Coed Mawr, sef Canolfan Asesu Blynyddoedd Cynnar a Chanolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio.<br><br>Bydd y ddwy Ganolfan yn aros ar safle Ysgol Coed Mawr ar hyn o bryd ac yn cael eu hail leoli yn adeilad newydd y Garnedd. |
| 7.3 | Rwy'n deall y bydd unrhyw blant ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael eu tynnu oddi wrth Garnedd i Glan Cegin, a yw hyn yn gywir? Os yw'n gywir, byddai'r ddrwgdybiaeth o symud y plant yn anhygoel. | | Nid oes unrhyw gynlluniau i symud plant oddi wrth Ysgol y Garnedd a’i lleoli yn Glancegin. |
| 7.4 | Tudalen 32, mae'r tabl hwn yn anghywir, mae gan yr ysgol Cylch Meithrin a chlwb gwyliau ysgol, efallai na fydd ar yr un safle â'r brif ysgol ond mae yno ac mae'n boblogaidd iawn, peidiwch ag anghofio amdano. | | Mae Cyngor Gwyned yn derbyn y sywlad. Nodir fod gan Ysgol y Garnedd Gylch Meithrin a chlwb gwyliau ysgol. Bwriedir sicrhau fod gofod ar gyfer y cylch meithrin wedi ei gynnwys yn yr adeilad newydd.<br><br>Nodir fod fersiwn cywir o’r tabl wedi ei gynnwys yn y pecyn ystadegau. |
| 7.5 | Tudalen 23 y ddogfen "Mater i lywodraethwyr Ysgol Y Garnedd fyddai penderfynu maint a dosbarthiad adnoddau'r ysgol" ond ar dudalen 32 "Ni ragwelir na fyddai unrhyw newidiadau i'r strwythur staffio presennol ar Ysgol Y Garnedd "bydd yn ysgol fwy gyda dosbarthiadau mwy a mwy o blant ym mhob blwyddyn ond bydd yr athrawon yn aros yr un fath | | Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar strwythur staffio ysgol y Garnedd. Rhagwelir y bydd angen ystyried swyddi ychwanegol fel rhan o’r strwythur gan y bydd niferoedd yr ysgol yn cynyddu, byddai hyn yn fater i’r llywodraethwyr benderfynu arno. |
| 7.6 | Mae’r map a ddangosir yn yr ymgynghoriad yn anghywir gan fod Ysgol y Garnedd yn ward Glyder (efo Cae Top, Friars a Thryfan). Hefyd mae ward Hendre a Deiniol yn ddwy ward ar wahan ar hyn o bryd | | Nodi’r mae map yn dangos dalgylchoedd ysgolion yn unig yw hwn yn hytrach na wardiau etholedig. |
| 7.7 | Er ein ein bod yn cynrychioli’r gymuned gatholig, rydym hefyd yn Gymry ac yn bersonol, mae’n fy nhramgwyddo y defnyddir deitl Saesneg ar yr unig ysgol gatholig ar y ffurflen hon. | | Fel rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddwyd fersiwn dwy ieithog o’r holl ddogfenau ymgynghori a’r ffurflen ymateb. Yn ogystal roedd y holl ddogfennaeth ar gael ar wefan y Cyngor. |
| **8** | **Matertion Ieithyddol** | | |
| 8.1 | Gobeithio bydd ethos Gymraeg yr Ysgol yn parhau. / Bydd ethos Gymraeg gryf yn parhau. Mae angen i’r ddarpariaeth yma barhau – ac i Tryfan gael ysgol newydd hefyd. / Angen cadw safon yr iaith Gymraeg yn uchel fel ag y mae ar hyn o bryd! / Gobeithio bydd ei Cymreictod yn parhau yr un mor gryf ag y mae ar hyn o bryd. / Poeni am dyfodol yr Iaith Gymraeg mwy na dim. | 5 | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau ethos Gymraeg ymhob un o ysgolion y sir.<br><br>Fel rhan o ddisgwyliadau’r Siarter Iaith, bydd gofyn i Ysgol y Garnedd ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol o’r newydd, a chynllunio’n briodol i hyrwyddo a hwyluso |
| 8.2 | Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fanwl iawn i’r effaith ar y Gymraeg drwy ddadansoddi data'r Siarter Iaith yn llawn a thrwy ystyried data cyfrifiad 2011 i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | edrych ar broffil ieithyddol wardiau Bangor a Pentir. Mae'n anodd darogan yn fanwl gywir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, ond mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd y disgyblion newydd o deuluoedd di-Gymraeg yn cael eu dylanwadu gan ddiwylliant Cymreig Ysgol y Garnedd sydd â phrofiad llwyddiannus o hybu a defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol. | | ethos Gymraeg yn yr ysgol, ynghyd â defnydd o'r Gymraeg ymysg y disgyblion fel rhan o ddisgwyliadau gweithredu'r Siarter Iaith.<br><br>"Mae'n anodd darogan yn fanwl gywir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, ond disgwylir y bydd y disgyblion newydd o aelwydydd di-Gymraeg yn cael eu dylanwadu gan ddiwylliant ac ethos Cymreig Ysgol y Garnedd. |
| 8.3 | A sefyllfa'r Gymraeg yn ardal Bangor mor fregus, y mae'n hanfodol nad yw'r ad-drefnu arfaethedig yn amharu dim ar allu'r ysgol i sicrhau nid yn unig fod plant yn llwyddo'n academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd yn mwynhau awyrgylch lle y gallent ac y dymunant gymdeithasu'n rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg ag athrawon a'u cyd-ddisgyblion, yn yr ysgol a thu allan. | | |
| 8.4 | Ni ellir disgwyl i blant sydd wedi siarad Saesneg ar fuarth yn ysgol droi, dros nos megis, at ddefnyddi'r Gymraeg i'r perwyl hwnnw. Y perygl yw na ŵyr neb pa mor hir y byddai'r "cyfnod". | | Cydnabyddir fod newid arferion iaith yn broses sy'n digwydd dros amser, gyda nifer o ffactorau gwahanol yn gyfrifol am ddylanwadu ar arferion iaith unigolyn. Serch hynny, mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd y disgyblion newydd o deuluoedd di-Gymraeg yn manteisio o ddiwylliant Cymreig Ysgol y Garnedd sydd a phrofiad llwyddiannus o hybu a defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol.<br><br>Rhaid cydnabod hefyd fod Gwynedd wedi arwain yn genedlaethol ar annog a dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg drwy gyfrwng y Siarter Iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol yng Ngwynedd, ac yn gynllun sydd bellach wedi ei ledaenu'n genedlaethol.<br><br>Fel rhan o ddisgwyliadau'r Siarter Iaith, bydd gofyn i Ysgol y Garnedd ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol o'r newydd, a chynllunio'n briodol i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymysg y disgyblion fel rhan o ddisgwyliadau gweithredu'r Siarter Iaith.<br><br>Rhagwelir mai disgyblion o deuluoedd cynhenid Bangor a fydd yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion Ysgol y Garnedd yn wahanol i ddatblygiad arfaethedig Morbaine, allai fod wedi arwain at fewnlifiad o boblogaethau di-Gymraeg i'r ddinas |
| 8.5 | Mae awduron yr Asesiad, i bob golwg, wedi buddsoddi llawer yn y gobaith bod trochi'n bosibl, yn y pen draw, ond y mae'n sobor o brin o fanylion o sut yr eir i'r afael â'r newid disgwyliedig o siarad Saesneg i Gymraeg. Ni does, i bob golwg, unrhyw gynllun, unrhyw nodau gosodedig, unrhyw amserlen. | | |
| 8.6 | Posibilrwydd arall (nas amlinelli'r yn yr Asesiad) yw y byddai'r ad-drefnu arfaethedig yn arwain at newnid parhaol yn iaith cymdeithasu plant Ysgol y Garnedd o'r Gymraeg i'r Saesneg. | | |
| 8.7 | Os cofiwch, bu'r tebygrwydd y byddai datblygiad arfaethedig Morbaine ym Mhen-y-ffridd yn oeri newid iaith buarth Ysgol y Garnedd o'r Gymraeg i'r Saesneg, fel y cyfaddefodd Gwasanaethau Cynllunio Gwynedd ar y pryd, yn un o'r ffactorau ddarfu godi gymaint o wrthwynebiad i'r cynllun. Rŵan mae'r Cyngor ei hyn fel petai'n fodlon mentro hynny trwy gyfrwng yr ad-drefnu arfaethedig. | | |
| 8.8 | Gwnaed yr Asesiad gan Gyngor Gwynedd ei hun. Tybiai rhywun y dylid bod wedi gofyn i asiantaeth allanol gyda gwybodaeth arbenigol am gymdeithaseg iaith, er mwyn bod yn wrthrychol ac yn amhleidiol. Nid yw'n eglur, hyd yn oed, a ofynwyd barn yr Uned Iaith y Cyngor na Hunaniaith: nid yw'n edrych fel pe gwnaed. I bob dibyn, mae'r rhai sy'n gyfrifol am yr ad-drefnu arfaethedig wedi creu cynllun, ei asesu eu hunain, datgan y dewisiadau a'i gwneud yn eglur eu bod yn ffafrio Opsiwn | | Paratowyd yr asesiadau effaith yn unol a chanllawiau'r Llywodraeth (y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013) sy'n nodi fel a ganlyn:<br>"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r gofyniad i gynnal asesiadau fod yn rhy feichus ac nid yw'n ystyried bod angen comisiynu gwaith o'r fath gan ymgynhorwyr allanol". |

| 9 | Y Cynnig | | |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Er fy mod yn croesawu arian newydd ar gyfer gwella Addysg ym Mangor. Yr wyf yn gryf yn erbyn yr opsiwn â gynigir. Byddai Opsiwn 10 yn golygu bod ysgol Garnedd newydd yn llai felly'n rhatach i'w hadeiladu. Byddai hefyd yn caniatáu mwy o ofod i'r disgyblion. / Hoffwn weld opsiwn 10 yn cael ei gymryd a throi Bangor yn leoliad o rhagoriaeth ar gyfer chwaraeon yng ngogledd cymru a chynhyrchu athletwyr elitaidd y dyfodol. / Mae'n siom gweld Glanadda / Coed Mawr yn cau yn hytrach na dod at eu gilydd mewn un adeilad. Dylid ystyried anghenion pob ysgol yn y dalgylch | 3 | Fel rhan o'r broses o adnabod yr opsiwn a ffafrir, gwerthuswyd opsiynau'r rhestr hir er mwyn cymharu prif fanteision ac anfanteision yr opsiynau oedd dan ystyriaeth. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd, gyda'r olaf ar 29 Tachwedd 2017.<br><br>Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Fel rhan o'r broses, adnabuwyd nifer o amcanion i'w hystyried ar gyfer y ddarpariaeth yn nalgylch Bangor sef:<br><br>• Sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob plentyn yn y lleoliadau priodol;<br>• Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn orlawn;<br>• Sicrhau nad oes unrhyw ysgol wedi'i asesu yng nghyflwr C neu waeth;<br>• Lleihau llefydd gweigion sylweddol mewn ysgolion neu gynyddu effeithiolrwydd;<br>• Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn y dalgylch;<br>• Sicrhau bod maint dosbarthiadau yn addas yn yr ysgolion cynradd;<br>• Sicrhau nad oes dros 25 disgybl o'r un oedran mewn un dosbarth;<br>• Sicrhau nad oes rhagor na 20 disgybl o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth;<br>• Cysoni ansawdd addysg yn y dalgylch;<br>• Sicrhau nad oes unrhyw bennaeth yn treulio rhagor na 20% o'i amser yn dysgu;<br>• Datblygu'r defnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol;<br>• Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch.<br><br>Ar sail canlyniadau'r gwerthusiad opsiynau adnabuwyd fod opsiwn 3 yn diwallu'r anghenion ar gyfer darpariaeth addysg cynradd ym Mangor wedi ei fesur yn erbyn y ffactorau allweddol a adnabuwyd yn ystod y cyfarfodydd PAD.<br><br>Mae opsiwn 3 hefyd yn sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cael cyfle i fanteisio o amgylchedd dysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf. |
| 9.2 | Credaf nad yw y cynnig yn hollol deg gyda ysgol Glanadda gan nad oes son bod gan yr ysgol gae chwarae pel droed sydd yn adnodd arbennig. | | Rydym yn cydnabod bod gan Ysgol Glanadda gae chwarae pel droed. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.3 | O ystyried bod Glancegin wedi agor yn ddiweddar fel ysgol newydd – pam bod angen cynyddu Capasiti? Oni gafodd hynny ei gynllunio yn ystod y broses o adeiladu adeilad newydd? | | Fel rhan o Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, llwyddodd y Cyngor i ddenu £5.11m tuag at adeiladu ysgol newydd ar gyfer 240 o ddisgyblion (yn cynnwys 30 lle meithrin) ym Maesgeirchen yn lle'r Ysgol Glancegin blaenorol. Pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol, roedd niferoedd llefydd gweigion sylweddol yn yr ysgol, gyda nifer o blant yn mynychu ysgolion eraill yn y dalgylch. Mae'r cynllun ar gyfer yr adeilad newydd yn galluogi hyblygrwydd i addasu rhai ardaloedd rhag ofn y byddai twf yn nifer plant y dalgylch yn y dyfodol. |
| **10** | **Materion Addysgol** | | |
| 10.1 | Bydd hyn yn gadael pobl Coed Mawr heb ysgol leol.<br>Y dalgylch ar gyfer ysgol y Garnedd yw Bangor gyfan oherwyd, blynyddoedd yn ôl, dyma'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg oedd ar gyfer yr ardal. Dyddiau yma, mae pob ysgol yng Ngwynedd yn anelu at ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ardderchog. Hefyd, mae adleoli ysgol Cae Top i ddalgylch presennol safle Friars yn golygu y gall dalgylch Garth fod yn Ysgol Hirael.<br>Oni fyddai yna unrhyw newidiadau i'r dalgylchoedd, yna byddai pobl Coed Mawr o dan anfantais wrth gael lle yn ysgol Garnedd oherwydd y bydd yna cystadlaeath â phlant eraill o gwmpas Bangor neu y byddent o fantais dros bawb arall trwy yn cael triniaeth ffafriol ar gyfer lleoedd yn y Garnedd.<br>Byddwn yn cynnig, yn ychwanegol at gau ysgolion Coed Mawr ac ailadeiladu ysgol Garnedd newydd bod dalgylchoedd ym Mangor yn cael eu hadolygu gan ystyried lleoliadau newydd ysgolion a hefyd diddymu dalgylch cyfan Bangor sydd bellach yn ddianghenraid ar gyfer ysgol Garnedd. (Dylai'r dalgylch cyfan o Fangor i Ein Harglwyddes aros fel ag y mae, yn unigryw, yn cynnig addysg Gatholig.) | | Bydd gan presilwyr ardal Coed Mawr ddwy ysgol dalgylch (Garnedd ac Ein Harglwyddes), gellir ystyried y ddau ohonynt, yn ddaearyddol, fel ysgolion lleol i ardal Coed Mawr.<br><br>Nid yw'r sefyllfa mewn perthynas ag ysgolion eraill yn agosach at rai disgyblion na'r ysgol dalgylch yn unigryw i Cae Top.<br><br>Os gweithredir y cynnig i gau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr, bydd yr awdurdod yn cynnig lle i ddisgyblion yr ysgolion presennol, yn ddarostynedig i ddewis rhieni, yn yr ysgol newydd.<br><br>Rydym yn rhagweld y bydd capasati adeilad newydd y Garnedd yn ddigonol i ateb y galw. Fodd bynnag, pe bai mwy o geisiadau na lleoedd, byddai meini prawf gordanysgrifio yr Awdurdod yn cael ei weithredu, un o'r rhain yw'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Wrth ystyried agosrwydd Coed Mawr i safle adeilad newydd y Garnedd, ni ragwelir y byddai pobl Coed Mawr o dan anfantais. Unwaith eto, pe bai mwy o geisiadau na lleoedd, byddai meini prawf gordanysgrifio yr Awdurdod yn cael eu weithredu'n gyson ar gyfer pob cais. Ni roddir triniaeth ffafriol i unrhyw un ar gyfer lleoedd.<br><br>Oherwydd y tir sydd ar gael a lleoliadau daearyddol yr ysgolion nid ydym yn bwriadu adolygu dalgylch Bangor gyfan ar gyfer y Garnedd. |
| 10.2 | Mae caniatáu i Glanadda a Choed Mawr leihau mewn niferoedd, gan ganiatáu i Garnedd or lenwi wedi ychwanegu at y problemau ym Mangor. Penderfyniadau "hanesyddol" hyn oedd y bai, yn rhannol, o'r cyngor. Mae angen i benderfyniadau | 2 | Yn anffodus, mae'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion Glanadda a Choedmawr wedi cael ei yrru ar ddewis y rhieni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn y dyfodol fod yn gynhwysfawr ac yn cynnwys holl ddisgyblion ac ysgolion / Mae Adran Addysg Gwynedd wedi gadael i Ysgol y Garnedd gael ei gordanysgrifio gyda dros 150 o blant; sut gadawyd i hyn ddigwydd? | | Dros y blynyddoedd, mae Ysgol y Garnedd wedi sicrhau'r Awdurdod eu bod yn gallu bodloni'r niferoedd uwch na'r capasiti a gyfrifwyd ar gyfer yr ysgol a awgrymir. Roedd caniatáu y niferoedd uwch hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu derbyn pob cais dalgylch ar amser. |
| 10.3 | A fu cyswllt a rhieni Glanadda a Coed Mawr ynghylch eu dewis o ble y dymunant eu plant i fynd pe bai'r ysgol a grybwyllir yn cau?<br>A cymryd y byddent yn mynd i Garnedd – gan arwain at gynnydd mawr. / A gafodd rhieni Glanadda a Coedmawr eu holi ynghylch ble dymunant i'w plentyn/plant fynd pe bai'r ysgolion hynny yn cau? Neu a gymerir yn ganiataol y byddent oll yn mynychu Garnedd? Dyna sydd i'w gyfrif am gynnydd mor fawr mewn capasiti. | 2 | Ni ddaethpwyd i gysylltiad â rhieni Glanadda a Choed mawr ynglŷn â'u dewis o ble y byddent yn dymuno i'w plant fynd os oedd yr ysgolion hynny'n cau. Bydd capasiti yn adeilad newydd y Garnedd ar gyfer disgyblion Glanadda a Choed Mawr, ond, fel y bu erioed, gall y rhieni fynegi dewis ar gyfer ysgolion gwahanol. |
| 10.4 | Parhad - Byddai'r plant sy'n symud ysgolion yn elwa o fod o gwmpas aelodau'r staff y maent wedi dod i adnabod ac i ymddiried dros y blynyddoedd (yn enwedig staff un i un).<br>Ansawdd - Nid yw staff yn ysgol Garnedd o reidrwydd yn well na'r rhai yn yr ysgolion y bwriedir eu cau, er gwaethaf yr hyn mae adroddiadau Estyn yn ei awgrymu! Trwy sicrhau bod gan yr holl staff gyfle cyfartal ar gyfer y swyddi, byddai hyn yn sicrhau bod y sgiliau ar draws yr holl ysgolion yn cael eu cadw er lles y disgyblion. | | Estyn yw'r corff rheoleiddio cydnabyddedig ar ysgolion. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.<br><br>Pe tai'r cynnig yn cael ei weithredu - ail leoli fyddai Ysgol y Garnedd, ac felly bydd y staff yn trosglwyddo'n uniongyrchol i'w swyddi yn yr ysgol newydd. |
| 10.5 | Yr unig bryder ydy fod 420 fel capasiti yn nifer rhy uchel – os mai 25 ymhob dosbarth ydy delfryd Cyngor Gwynedd. Poeni am newid ethos yr ysgol, ac a fydd nifer o lefydd gwag yn y Garnedd newydd?<br>Y cam nesaf pwysig fydd cael ysgol newydd ac adeilad pwrpasol i ysgol Tryfan er mwyn denu disgyblion y Garnedd / Mae'r nifer a glustnodwyd i Ysgol y Garnedd yn rhy fawr, ac fe fydd yn anodd iawn cynnal addysg Gymraeg efo niferoedd mor fawr | 2 | Mae diffig capasiti a chyflwr gwael adeilad presennol Ysgol y Garnedd wedi bod yn un o'r prif yrrwyr dros yr angen i ad-drefnu yn ardal Bangor.<br><br>Mae'r adran addysg o'r farn fod y capasiti dan sylw yn briodol ac yn cynnig gwell cyfleoedd i hwyluso rhanniad dosbarthiadau'r ysgol newydd, yn ogystal ag yn ymateb i'r gofyn cynyddol am lefydd a ragwelir i'r dyfodol.<br><br>Mae gennym engraifft o ysgol o'r un maint sy'n llwyddiannus o ran y Gymraeg. |
| 10.6 | Nodwyd nad oes sôn am ymestyn Ysgol y Faenol yn y cynnig a ffafrir a'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol, sef cau Glanadda a Coed Mawr, ac adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu capasiti'r ysgol i 420. Teimlwyd fod rhaid i ymestyniad Ysgol y Faenol ddigwydd a rhedeg law yn law ag amserlen adeiladu Ysgol y Garnedd er mwyn gwireddu hawl rhieni "*i ddewis lleoliad amgen ar gyfer eu plant os ydynt yn dymuno*". Fel arall, ni fydd gan rieni Coed Mawr a Glanadda ddewis ond i yrru eu plant i ysgol newydd Y Garnedd lle bo capasiti ar gael i'w cymryd. | | Fel y nodwyd ar dudalen 5 y ddogfen ymgynghori. Fel rhan o'r opsiwn ffafrieidig, mae'r angen i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol wedi ei adnabod i gyfarch y posibilrwydd o gynnydd yn nifer o ddisgyblion yn deillio o ffactorau fel datblygiadau tai ym Mhenrhosgarnedd, a chapasiti presennol yr ysgol.<br><br>Mi fydd hyn yn destyn i ymgynghoriad ar wahân a fydd yn rhedeg yn gyfochrog gyda proses Y Garnedd. Mi fydd unrhyw geisiadau ar gyfer mynediad yn ddarostynedig ar ddewis rhieni. |

<table>
<tr><td>10.7</td><td>Nodwyd y byddai’n ddefnyddiol trefnu i holi rhieni plant cyfredol Coed Mawr a Glanadda i ba ysgol y byddant yn dymuno i’w plant fynd pan fydd Coed Mawr a Glanadda yn cau, er mwyn blaengynllunio ar gyfer yr ysgolion lleol.</td><td></td><td>Fel rhan o’r cynnig bydd yr awdurdod yn sicrhau fod lle ar gyfer disgyblion presennol ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn adeilad newydd y Garnedd.<br>Bwriedir defnyddio’r un dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, a’r un dyddiad penderfyniad ar gyfer yr holl geisiadau a throsglwyddiadau. Felly anelir at gael yr wybodaeth am ddisgyblion newydd i Ysgol y Garnedd erbyn diwedd Ebrill 2020, er mwyn galluogi ysgolion lleol flaengynllunio.</td></tr>
<tr><td>10.8</td><td>Er mwyn gwireddu nod y Cyngor, nodir uchafswm maint dosbarthiadau o “25 disgybl o’r un oedran mewn un dosbarth”. Ar sail ysgol â dosbarthiadau ‘two tier’, byddai hyn yn arwain at ysgol â chapasiti o 350, neu 400 yn cynnwys meithrin. Sut felly y cyrhaeddir ffigwr o 420 ar gyfer capasiti Ysgol y Garnedd, neu 480 yn cynnwys meithrin?<br>Ar ddiwedd paragraff 6.3 nodir “mater i lywodraethwyr Ysgol y Garnedd byddai i benderfynu maint dosbarthiadau…..”. Oes gan y Llywodraethwyr felly y grym i gyfyngu maint dosbarthiadau i uchafswm o 25 a fyddai’n golygu cyfyngu capasiti’r ysgol newydd i 400 yn cynnwys meithrin??</td><td></td><td>Y delfryd fyddai cael 25 ym mhob dosbarth. Ond wrth gwrs mae’r nifer o blant mewn dosbarthiadau yn amrywio ar draws ysgolion Gwynedd.<br>Rydym yn creu digon o ofod ar gyfer 30 ym mhob dosbarth gan mae dyma’r ddeddfwriaeth o ran niferoedd yn y Cyfnod Sylfaen.</td></tr>
<tr><td>10.9</td><td>Bydd angen i ysgol newydd Y Garnedd fod o faint digonol o ran ‘footprint’ i gartrefu dosbarthiadau meithrin hyd at un ai 50 neu 60 o blant er mwyn bwydo system ‘two tier’. (Noder – ffigyrau yn ddibynnol ar uchafswm dosbarthiadau – 25, neu 30?).<br>Mae angen cadarnhad fod ‘footprint’ yr ysgol yn darparu’r gofod angenrheidiol gan nad yw ffigwr capasiti ysgol newydd Y Garnedd (420?) yn cynnwys ffigyrau meithrin.<br>/ Nodwyd pryder ynglŷn â llefydd gweigion a ddaw yn sgîl cynnydd yng nghapasiti Ysgol y Garnedd o 338 (presennol) i 480 – yn cynnwys meithrin. Byddai’r ysgol yn fwy agored i gymryd plant a waharddwyd o ysgolion eraill, gydag effaith negyddol bosib ar rediad a pherfformiad yr ysgol.</td><td>2</td><td>Fel nodwyd ar tudalen 19 yn y ddogfen ymgynghori:<br><table><tr><td>Nifer a dderbynnir</td><td>Meithrin<br>30 bore<br>30 prynhawn</td><td>Derbyn – Bl 6<br>60</td></tr></table><br>Nid ydym yn disgwyl unrhyw wiriad oddi wrth y polisi gwaharddiadau presennol.</td></tr>
<tr><td>10.10</td><td>Rhagdybir fod ffigyrau capasiti ysgol newydd Y Garnedd o fewn y ddogfen (420) wedi eu selio ar dwf disgwyliedig ym mhoblogaeth y dalgylch yn sgîl cynllun datblygu tai Morbaine ym Mhenyffridd. Gan nad yw’r cynllun hwnnw yn mynd yn ei flaen bellach (cais cynllunio wedi’i wrthod), angen cadarnhad o effaith y penderfyniad hwnnw ar gapasiti Ysgol y Garnedd.</td><td></td><td>Ar hyn o bryd nid yw’n seliedig ar Morbaine, gall ceisiadau cynllunio yn y dyfodol gyfrannu at dwf disgwyliedig ym mhoblogaeth y dalgylch, gan gynnwys twf poblogaeth yn gysylltiedig gyda Tai Goetre Uchaf.<br>Bydd capasiti Y Garnedd yn parhau i fod yn 420</td></tr>
<tr><td>10.12</td><td>Nodwyd pryder ynglŷn â newid yn ethos Gymraeg a pherfformiad Ysgol y Garnedd drwy gynyddu ei chapasiti i 480 yn cynnwys meithrin. Byddai mwy o blant yng nghategori cinio am ddim (25 ychwanegol mewn nifer yn ôl ffigyrau o fewn y ddogfen - yn ychwanegol at y 21 presennol) yn cael effaith negyddol ar yr ysgol, yn newid dynameg y dosbarthiadau, a fyddai yn ei dro yn effeithio ar berfformiad yr ysgol yn erbyn y dangosyddion Cenedlaethol.</td><td></td><td>Mae Cyngor Gwynedd yn sir gynhwysol ble mae plant cinio ysgol am ddim yn perfformio’n rhagorol mewn cymhariaeth â siroedd eraill. Nid yw plant cinio am ddim o reidrwydd yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.13 | Nodwyd fod angen sicrhau lle i Glwb y Garnedd (neu fudiad cyffelyb) yng nghynlluniau'r ysgol newydd. Nid yw'n ymddangos fod y cynlluniau arfaethedig yn cynnwys darpariaeth o'r fath. Mae'r ddarpariaeth yma yn allweddol bwysig i rieni cyfredol Ysgol y Garnedd sy'n gweithio. Bydd gwrthwynebiad llym iawn pe na fyddai darpariaeth o'r fath ar gael i rieni, a gallasai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y rhieni sy'n dewis Ysgol y Garnedd fel eu dewis cyntaf ar gyfer eu plant. | | Bydd dyluniad yr ysgol newydd yn golgyu y bydd darpariaeth presennol Ysgol y Garnedd yn gallu trosglwyddo i'r adeilad newydd.<br>Mater i'r ysgol fyddai cytuno ar delerau unrhyw drefniadau pendool gyda clybiau perthnasol (e.e. Clwb y Garnedd). |
| 10.14 | Nodir cyfeiriad at Ganolfan Adnoddau Iaith i ddisgyblion sydd ag anhwylderau iaith benodol, a Chanolfan Cyfathrebu Cymdeithasol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig. Croesawir rhain, ond gofynnir am gadarnhad pwy fydd yn gyfrifol am ariannu a rheoli'r staff cysylltiedig – ai y Cyngor fydd yn gyfrifol ynteu'r ysgol? | | Yr Awdurdod sydd yn gyfrifol am ariannu'r canolfannau a nodir yn y sylwad, ac hefyd yn gyfrifol am reoli staff y ddwy ganolfan. |
| 10.15 | Yn para 6.12 "*Goblygiadau staffio*", nodir "*Awst 2020*" fel dyddiad cau ysgolion Coed Mawr a Glanadda. Bydd blwyddyn yn mynd heibio heb ddefnyddio capasiti ychwanegol ysgol newydd Y Garnedd a chostau rhedeg y ddwy ysgol yn parhau. Oni ddylai dyddiadau cau ysgolion Coed Mawr a Glanadda gyd-fynd â dyddiad agor ysgol newydd Y Garnedd? | | Yn ddarostyngedig ar brosesau statudol Cabinet angenrheidiol bwriedir cwblhau gwaith adeiladu erbyn haf 2020, gyda'r ad-drefnu arfaethedig yn dod yn weithredol ar 1 Medi 2020.<br><br>Os gweithredir y cynnig, bydd ysgolion Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cau ar 31 Awst 2020. |
| 10.16 | Faint o rybudd fydd Pennaeth Ysgol y Garnedd yn ei gael o pryd a faint o blant fydd yn trosglwyddo o'r ysgolion fydd yn cau? Mae angen rhybudd digonol er mwyn paratoi yn ddigonol ar eu cyfer. | | Bwriedir rhedeg proses o roi dewis trosglwyddo disgyblion Ysgol Glanadda a Ysgol Babanod Coed mawr i'r Garnedd gyfochrog â'r broses mynediad arferol ar gyfer Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 3. Bwriedir defnyddio'r un dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, a'r un dyddiad penderfyniad ar gyfer yr holl geisiadau a throsglwyddiadau. Felly anelir at gael yr wybodaeth am ddisgyblion newydd i Ysgol y Garnedd erbyn diwedd Ebrill 2020. |
| **11.0** | **Crynodeb Estyn** | | |
| 11.1 | Mae Estyn o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi sylwadau Estyn ac yn cytuno bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau'r ddarpariaeth addysg ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ardal. |
| 11.2 | Wrth benderfynu ar y cynnig hwn, mae'r cynigiwr wedi ystyried yn fanwl deuddeg opsiwn gwahanol ar gyfer ad-drefnu addysg yn ninas Bangor. Mae'r cynigiwr wedi gwerthuso'r opsiynau yn deg yn erbyn manteision ac anfanteision nifer o griteria, yn cynnwys; sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob disgybl yn y lleoliad priodol, lleihau llefydd gweigion, lleihau amrediad cost y pen, sicrhau maint addas i ddosbarthiadau, sicrhau nad yw penaethiaid yn treulio nwy na 20% o'u hamser yn addysgu a datblygu defnydd yr ysgol yn y gymuned. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwad. |
| 11.3 | Mae'r cynigiwr wedi nodi rhestr gynhwysfawr o risgiau posibl i lwyddiant y cynnig. Er enghraifft mae'n ystyried risgiau fel diffyg gwneud penderfyniad, amharodrwydd | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lleol i gefnogi'r ysgol newydd, ansawdd yr addysg yn y tymor byr a gor-redeg mewn costau contractio. Mae'r awdurdod lleol yn nodi'r effaith a fyddai'r risgiau hyn yn eu cael a chamau synhwyrol i liniaru'r risgiau | | |
| 11.4 | Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr. Nid ydynt yn rhagweld taith afresymol i unrhyw ddisgybl gan fod y ddwy ysgol a fyddai'n cau o fewn milltir i Ysgol y Garnedd. Nid ydynt yn rhagweld unrhyw gynnydd yng nghostau cludiant yn deillio o weithredu'r opsiwn hwn. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwad. Fe nodir yn y ddogfen ymgynghori, wrth symud i'r adeilad newydd, ni ragwelir bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol a'r strategaeth. Byddai cludiant yn parhau i gael ei ddarparu yn unol a Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ac ni ragwelir unrhyw gynnydd yng nghostau cludiant yn deillio o weithredu ar yr opsiwn ffafriedig. |
| 11.5 | Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn addas y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, maent yn nodi'r manteision o ehangu capasiti Ysgol y Garnedd sydd eisoes yn ysgol werdd gydag arweinyddiaeth a ystyrir yn rhagorol. Maent yn argyhoeddedig na fydd y cynnig yn cael effaith ar ddarpariaeth y cwricwlwm llawn, yn cynnwys y cyfnod sylfaen gan fod yr ysgol eisoes yn darparu addysg yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol dau. | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwad. |
| 11.6 | Mae'r cynigiwr wedi cwblhau asesiad cydraddoldeb ar gyfer pob opsiwn posibl. Mae'n rhesymol i gredu na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth a gynigir ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, nac ar gyfer grwpiau unigol o ddisgyblion neu unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig. | | Mae'r Cyngor yn derbyn y sylwadau Estyn ynglyn a phrif gasgliadau'r asesiad ar gydraddoldeb. Bydd y Cyngor yn parhau i ddilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol a'r nodweddion cydraddoldeb. |
| 11.7 | Mae'r cynigiwr wedi ystyried deilliannau adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer y tair ysgol yn effeithiol. Mae hefyd yn datgan ym mha gategori y mae'r ysgolion wedi eu gosod gan y consortiwm ac mae yna esboniad cryno a chlir o ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y tair ysgol. | | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwad. |
| 11.8 | Mae'r cynigiwr wedi darparu tablau yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer Ysgol y Garnedd ac Ysgol Glanadda, a'r cyfnod sylfaen ar gyfer Ysgol Babanod Coedadda. Maent yn dangos ffigyrau cyfatebol ar gyfer Gwynedd a Chymru ar gyfer 2017. Serch hynny, nid yw'r cynigiwr wedi darparu dadansoddiad cryno o berfformiad yr ysgolion. | | Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn y sylwadau.<br>Mewn ymateb i'r sylwad ynglŷn â'r diffyg dadansoddiad o berfformiad yr ysgolion, noder fod arfarniad o berfformiad ysgolion Garnedd, Coedmawr a Glanadda i'w weld ar dudalennau 20 a 21 yn y ddogfen ymgynghori, ac mae'r canfyddiadau wedi eu seilio'n bennaf ar adroddiadau estyn diweddaraf yr ysgolion. Yn ogystal â hynny, ar dudalen 20, mae tabl sy'n nodi perfformiad y tair ysgol mewn perthynas â'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. |
| 11.9 | Mae'r cynigiwr wedi darparu cynnig cynhwysfawr, sy'n esbonio yn glir sut mae'r cynnig hwn yn rhan o ad-drefnu sy'n digwydd ar draws dinas Bangor fel rhan o weledigaeth hir dymor Cyngor Gwynedd ar gyfer y dalgylch. Mae'n esbonio'r achos dros newid yn effeithiol ac mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol fel, cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r tair ysgol, adnoddau ariannol a'r goblygiadau ar gyfer | | Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylwadau. |

<table>
<tr><td></td><td>arbedion refeniw parhaol, effaith gwahanol opsiynau ar y gymuned, goblygiadau staffio ac ystyriaethau ôl ddefnydd y safleoedd.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>11.10</td><td>Mae’r cynigiwr wedi rhoi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig yng nghyd-destun y trefniadau ehangach ar gyfer ad-drefnu darpariaeth addysg dinas Bangor. Mae’r rhesymwaith yn cynnwys cynyddu capasiti rhai ysgolion, cau dwy ysgol, gwella cyflwr ysgolion ac adeiladu adeilad ysgol newydd. Mae’r cynigiwr wedi ymgynghori’n eang gan gynnwys gwneud trefniadau i sicrhau eu bod yn casglu barn plant a phobl ifanc sy’n mynychu ysgolion y dalgylch.</td><td></td><td>Mae Cyngor Gwynedd yn nodi’r sylwadau.</td></tr>
<tr><td>12.0</td><td>Materion yn ymwneud ac Ein Harglwyddes</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>12.1</td><td>Mae'n bwysig darparu lle allu i wasanaethu anghenion addysgol plant yn yr ardal a dilynir y cynllun ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Ein Harglwyddes. Ar hyn o bryd, yr adeilad presennol sy'n gartrefu'r ysgol yw'r hynaf (dros 125 mlynedd) yn y ddinas (mae'r hynaf nesaf yn llai na dwsin o flynyddoedd) ac ymhlith yr hynaf yn y sir. O gofio'r gor-danysgrifiad a phoblogrwydd darpariaeth addysgol yn seiliedig ar ffydd catholig, yr wyf yn falch bod adeilad newydd yn cael ei ystyried or diwedd.</td><td></td><td rowspan="4">Gweler ymatebion 11.1 – 11.31 derbyniwyd gan drigolion yn ymwneud gyda agweddau Ysgol Ein Harlgwyddes yn unig sydd ddim yn destyn i’r ymgygnhoriad statudol yma.<br><br>Fel yr eglurir yn y ddogfen ymgynghori (tud. 5), dim ond ag ysgolion Y Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, i’r perwyl hynny, gwahoddwyd sylwadau ar y cynnig fel y disgrifiwyd ym mharagraff 1.1, sef:<br><br>“Cau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rheini); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.”<br><br>Blaenoriaethwyd yr ysgolion uchod ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn wynebu’r ddarpariaeth addysg bresennol sy’n cynnwys y canlynol:<br>• Mae dwy ysgol yn ardal Penrhosgarnedd yn sylweddol dros gapasiti, sef Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol. Ym mis Medi 2017, roedd Ysgol Y Faenol 20 llefydd dros capasiti, ac Ysgol Y Garnedd 95 dros capasiti.<br>• Gall datblygiadau tai newydd ym Mangor roi mwy o bwysau ar allu’r ysgolion lleol i dderbyn plant. Mae un datblygwr wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 245 o anheddau, ac eisoes wedi adeiladu nifer ohonynt.</td></tr>
<tr><td>12.2</td><td>Nid yw'r cynigion presennol yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ysgol Ein Harglwyddes a bydd yn cael effaith fawr arnom.<br>Os bydd y cynlluniau hyn yn mynd ymlaen heb feddwl am ddyfodol Ein Harglwyddes, rwy'n teimlo eich bod yn gwrthdroi Deddf Safonau a Threfniadaeth yr Ysgol 2013 trwy beidio â'n trin ni'n deg. Gan y bydd pob ysgol ym Mangor yn gwneud rhai gwelliannau i'w cynnal ar gyfer yr 21ain Ganrif. Yn yr achos hwn, ystyriwch hwn yn wrthwynebiad i'r cynlluniau yn hytrach nag ymateb.</td><td></td></tr>
<tr><td>12.3</td><td>Rydym yn ysgol hyfyw ac yn ddewis hyfyw i rieni. Mae angen i ni gael ein cynnwys yn y cynlluniau moderneiddio ar gyfer Bangor nawr ddim yn cael ei gwthio yn ôl eto yn y "gobaith" o fwy o arian yn y band nesaf. Rydym wedi<br>ein hanwybyddu gormod o weithiau ers sawl blwyddyn. Cymeradwywch ein hysgol fel ysgol hyfyw gyda chynlluniau pendant ar gyfer ein dyfodol</td><td></td></tr>
<tr><td>12.4</td><td>Bu cyflwr ein hysgol yn uchel ar y rhestr blaenoriaethau rhaglen am lawer o flynyddoedd. Cawsom ein hanwybyddu am lawer o resymau, y rhan fwyaf oherwydd costau. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae mwy o arian ar gael i’w wario ar ysgolion Bangor. Roedd yn rhaid inni wneud sawl galwad ffon cyn cael ein cynnwys. Rydym yn siomedig iawn nad ydym wedi ein cynnwys yn Band A. Mae ein hysgol dros ganrif oed, mae ein staff a’n plant yn haeddu cael eu haddysgu mewn adeilad ysgol sy’n ddigonol ar gyfer cwricwlwm y 21g. Dim ond os bydd arian ar gael y byddwn yn cael ein cynnwys yn Band B. Nid yw hynny yn dderbyniol. Rwyf yn teimlo ein bod wedi cael ein gadael allan unwaith eto. Ysgol y Garnedd a’r Faenol fydd yr unig ysgolion</td><td></td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fydd yn elwa – dyna oedd y bwriad o'r dechrau. Rydym yn y dalgylch lle na chawsom ein cynnwys yn y cyllid rydych yn ei dderbyn o'r datblygiad tai newydd. Rydym yn haeddu bod yn rhan o hyn gan y bydd plant o'r ystâd honno yn dymuno cael ysgol sy'n darparu addysg gatholig.<br>Dyma pam arnynt ysgol newydd a bod eraill yn cael eu hanwybyddu. Ni fyddai unrhyw ysgol arall yn cael rhwydd i wneud hynny. Mae angen gwrando ar ein llais – rydym yr un mor bwysig ag unrhyw ysgol arall. Mae angen ein cynnwys yn Band A. | | • Mae gan Ysgol Babanod Coedmawr 57% o lefydd gweigion ac Ysgol Glanadda 42% o lefydd gweigion.<br>• Nid oes gan weddill ysgolion cynradd Bangor fwy na 10% o lefydd gweigion. Mae 5 allan o'r deg ysgol gynradd yn llawn, gyda rhai ohonynt gyda niferoedd y disgyblion yn fwy na'r capasiti.<br>• Mae'r gost fesul disgybl yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y dalgylch ychydig yn is na'r cyfartaledd sirol o £3,777, gydag Ysgolion Babanod Coedmawr (£6,525), Glanadda (£5,052) yn sylweddol uwch. Mae amrediad yng nghost y pen rhwng 2 o ysgolion cynradd Bangor o £3,414, sef rhwng Ysgol Babanod Coedmawr (£6,525) ac Ysgol Garnedd (£3,111).<br>• Mae Ysgol Babanod Coedmawr yn derbyn £32,520 o gyllid ychwanegol blynyddol trwy'r "rhwyd-diogelu lleiafswm staffio".<br>• Mae ysgol Babanod Coedmawr a Glanadda dan arweiniad pennaeth mewn gofal dros dro oherwydd problemau denu Pennaeth parhaol i'r swydd.<br>• Mae anghysondeb yn ansawdd addysg y dalgylch.<br><br>Yn ystod y cyfarfod olaf o'r PAD, daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd yn adlewyrchu'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y dalgylch, oedd opsiwn 3, sef:<br><br>**Opsiwn 3:** Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.<br><br>Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag Ysgol Ein Harglwyddes, fe welir o'r opsiwn uchod fod y weledigaeth ehangach ar gyfer ardal Bangor yn nodi'r angen i roi ystyriaeth at gael adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| 12.5 | Rydym yn llwyr cefnogi ad-drefnu Ysgol ein Harglwyddes. | | |
| 12.6 | Mae Ein Harglwyddes yn sefydliad hanesyddol yng nghanol Dinas Bangor ac yn cynrychioli dinas Bangor. Mae'n embaras mawr nad yw'r cyngor lleol ar lawer o adegau byth wedi diweddaru neu hwyluso anghenion plant canol y ddinas fywiog hon. Mae angen i'r ysgol gwrdd a safonau'r 21g ar gyfer gwaith adeiladu/cyfleusterau. Mae'r ffaith bod cymaint o blant yn dal i fynychu'r ysgol hon yn dangos yn amlwg bod galw am y math yma o ysgol a bod galw amlwg i'w gwella o ran moderneiddio/diogelwch (h.y. lleoliad yr ysgol ger priffordd brysur).<br>Beth bynnag yw'r cyfleusterau, ceir llawer o blant a rhieni hapus sy'n mynychu ac sy'n fodlon iawn a safon addysgol yr ysgol.<br>Ni yw'r unig ysgol sydd ddim yn derbyn cyllid gan y Cyngor ac mae fel pe bai gwahaniaethu yn ein herbyn oherwydd ei bod yn ysgol grefyddol. | | |
| 12.7 | Nid yw adeilad yr ysgol yn ddigonol ar gyfer cwricwlwm 21g, mae hynny'n golygu bod angen cael ysgol newydd i ddarparu ar gyfer ein disgyblion a'u anghenion amrywiol unigol! | | |
| 12.8 | Mae ysgol ein Harglwyddes wedi cael ei hanwybyddu ar gyfer moderneiddio ac uwchraddio dros sawl cylch o gyllido, yn pontio sawl blwyddyn. Nawr, mae'r AALL wedi gweld yn dda i ddechrau ar raglen moderneiddio chwyldroadol; dylai pob ysgol gael eu hystyried.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw ysgol ein Harglwyddes yn addas ar gyfer cwricwlwm yr 21g a byddai'n gywilydd disgwyl i'r plant gael eu haddysgu yno, i'w lletya mewn amgylchfyd addysgu is-safonol. Mae gan Gwynedd gyfrifoldeb at BOB disgybl yn ardal Bangor, ac mae hynny'n cynnwys disgyblion ysgol Ein Harglwyddes. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rwyf yn gofyn am ystyriaeth gael ei roi i Ein Harglwyddes yn ystod y cylch hwn o gynigion, a galluogi'r ysgol ffynnu mewn amgylchfyd sy'n addas ar gyfer dysgu yn y 21g. | | Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad ger bron y Cabinet ar 12 Mehefin 2018, er mwyn gofyn am gymeradwyaeth mewn egwyddor i'r blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain (sef ail wedd y Rhaglen Ysgolion 21G (Band B 2019 - 2026)). Un o'r blaenoriaethau sy'n cael eu nodi yw Ysgol Ein Harglwyddes oherwydd cyflwr gwael yr adeiladau a'r safle sy'n gyfyng ac anaddas i bwrpas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Ceir gopi o'r adroddiad llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/ycabinet. |
| 12.9 | Mae'n bryd i ysgol Ein Harglwyddes gael ei moderneiddio. Mae angen i'r system addysg addasu i fyd sy'n prysur newid. Mae er dyfodol ein plant. | | |
| 12.10 | Mae ysgol ein harglwyddes yn un o'r ysgolion gorau ym Mangor. Caiff disgyblion well addysg gan yr ysgol hon. Er datblygiad y myfyrwyr yn y dyfodol, mae awyrgylch yr ysgol yn bwysig. Felly, rwyf yn awgrymu bod angen mawr i foderneiddio'r ysgol hon. Diolch. | | |
| 12.11 | Dylid dod a safonau Ysgol Ein Harglwyddes at safonau adeiladau ysgolion eraill, ceir son am wella safonau ysgolion eraill eto caiff ein harglwyddes ei gadael ar ôl, a'i anghofio.<br><br>Mae'r ysgol yn rhoi addysg gorau i'r plant ond mae safonau'r adeilad yn gadael yr ysgol i lawr, hefyd mae diogelwch y plant ar y priffordd gyda dim ffensio ar y palmant i atal damwain yn warth ond caiff ysgolion eraill ffensio ????<br>Mae Ffordd Caernarfon yn lon mor brysur – dim ond trwy lwc na fu damwain difrifol. Nid oes unman arall heblaw'r cae chwarae sydd wedi dyddio i'r plant chwarae ac mae llawer arno pan mae'r holl ysgol ar y cae chwarae. Mae'r iard chwarae yn llawn 'gritt' felly os ceir damwain, mae'n torri eu croen yn ddrwg ac yn gadael cerrig yn eu croen. Felly, mae angen gwelliannau i gyflwr yr adeilad i'w foderneiddio. | | |
| 12.12 | Mae angen adeiladu adeilad newydd i barhau i ehangu profiad dysgu'r disgyblion dan ein gofal. Nid yw cyflwr a cynllun yr adeilad yn briodol ar gyfer addysg y 21g. Mae'n gosod heriau di-angen i'n rôl fel addysgwyr. Ychydig iawn o ofod sydd ein hystafell ddosbarth a' tu allan. Gyda cau ysgolion yn cael ei argymell yn yr ardal leol, rwyf yn bryderus bod teuluoedd yn yr ardal eisiau lle yn yr ysgol. | | |
| 12.13 | Ydi adeilad Ysgol Ein Harglwyddes yn addas bellach. | | |
| 12.14 | Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. | | |
| 12.15 | Rwy'n llwyr gytuno bod angen ad-drefnu ein hysgol. Mae'r adeiladau yn hen ac yn oer ac yn anaddas ar gyfer nifer cynyddol y plant sy'n mynychu'r ysgol hon bob blwyddyn. | | |
| 12.16 | Gyda cyflwr adeilad Ysgol ein Harglwyddes ac er mwyn diogelwch y disgyblion, rwyf o'r farn bod Ysgol Ein Harglwyddes yn haeddu cael ysgol newydd. Gobeithio bydd Awdurdod Gwynedd yn ystyried ac yn clywed ein barn er lles ein plant a disgyblion y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dyfodol. Gan obeithio y bydd Ein Harglwyddes yn cael ei chynnwys yn ein blaenoriaeth ar gyfer moderneiddio. Diolch. | | |
| 12.17 | Mae gan Wynedd gyfrifoldeb i ddarparu ysgol fodern newydd ar gyfer Ein Harglwyddes. Nid yw'r ysgol byth yn cael cyllid ac mae ei wir angen. Gwnewch hynny ar gyfer ein plant a'u haddysg. | | |
| 12.18 | Rwyf o'r farn bod angen moderneiddio adeilad Ysgol Ein Harglwyddes. (adeilad newydd) gorau oll at y safonau. | | |
| 12.19 | Rydym yn cefnogi ail-drefnu Ysgol Ein Harglwyddes, oherwydd rhoddodd yr ysgol lawer o hapusrwydd ond mae'r ystafell ddosbarth yn rhy fychan a hen. | | |
| 12.20 | Rydym o blaid i Ysgol ein Harglwyddes barhau'n annibynnol oherwydd ei sylfaen ffydd + ansawdd ei haddysg. | | |
| 12.21 | Mae'r holl ysgolion cynradd ym Mangor yn rhy fach, ystafell ddosbarth fach, campws bychan, is-adeiledd gwan. Mae pennaeth ein harglwyddes yn gymwys, sy'n gallu defnyddio'r arian er y gorau!! | | |
| 12.22 | Mae angen delio a hwy ar fyrder. Fel rhiant disgybl yn Ysgol Ein Harglwyddes dywedwn o'r opsiynau a ddarparwyd/crewyd, ymddengys mai opsiwn 3 yw'r mwyaf tebygol y gall mwyafrif plant yn nalgylch Bangor elw arno, fodd bynnag gan ein bod yn cynrychioli llaifarif sy'n gostwng (Pabyddion), ymddengys braidd yn annheg i gael ein gadael allan o gyllid 'Band A' a dim ond cael ein hystyried ar gyfer 'darpariaeth uwchradd! Roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Ein Harglwyddes bron 25 mlynedd yn ol felly gallaf ddatgan bod ar yr adeilad presennol angen cryn welliannau. Cafodd yr ystafell ddosbarth symudol 'newydd' ei adeiladu tra roeddwn yn yr ysgol, ers hynny, yr unig welliannau a wnaed, oedd i adeilad yn dilyn bod ar dan. | | |
| 12.23 | Deallaf bod a wnelo'r cynnig hwn yn bennaf a cau Ysgol Coedmawr ac Ysgol y Garnedd ac mae'r plant yn yr ysgolion hynny a'u haddysg yw'r blaenoriaeth pennaf, ond tybiaf bydd effaith uniongyrchol ar holl ysgolion cynradd Bangor a fy nymuniad yw bod y cyngor yn rhoi ystyriaeth dyledus i ofynion Ein Harglwyddes yn y dyfodol agos. | | |
| 12.24 | Ceir poblogaeth amrywiol yn Ein Harglwyddes o ran diwylliant, yn anochel caiff hynny effaith ar ganran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, fodd bynnag mae'r rhieni hynny yn aelodau gwerthfawr o Fangor a'r ardal gyfagos, ni fuaswn yn hoffi meddwl y cai hynny effaith ar safiad Ein Harglwyddes ar y blaenoriaethau. | | |
| 12.25 | Opsiwn 3 nid ydym yn gweld pam bod yn rhaid inni aros tra bod gan o leiaf ddwy ysgol arall adeiladau newydd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.26 | Mae Ein Harglwyddes wedi bod yn rhagorol – bu yma ers 2 ganrif ac ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth. Rwyf o'r farn y dylai cael cydnabyddiaeth am yr holl waith caled a wnant ar gyfer y disgyblion. | | |
| 12.27 | Mae Ein Harglwyddes yn darparu addysg cyn cystal ag ystod eang o ddalgylchoedd ym Mangor – a gafodd yr ysgol ei hystyried fel opsiwn i rieni Glanadda/Coedmawr. Os na, pam? Os felly, a ddylid hefyd cynyddu capasiti Ein Harglwyddes? Fodd bynnag, ni all Ein Harglwyddes fod yn opsiwn yn ei safle presennol – dosbarthiadau llawn ac angen adeilad newydd. Yn ddi-os, byddai cael adeilad newydd ar gyfer Ein Harglwyddes yn cefnogi'r gor-lifo y delir ag ef ar hyn o bryd a byddai mewn sefyllfa i fod yn opsiwn hyd yn oed yn gryfach i rieni ynghylch addysg eu plentyn. | | |
| 12.28 | Rydym o'r farn bod angen i Gyngor Gwynedd a'r esgobaeth wneud mwy o blaid Ein Harglwyddes fel ag y gwnaeth ar gyfer Ysgol Cae Top er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn ardal Bangor yn derbyn yr un lefel o addysg, gan felly'r rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn, a hefyd amgylchfyd diogel i deithio i ac oddi yno. | | |
| 12.29 | Mae angen moderneiddio'r adeilad gan nad yw'n addas ar gyfer addysg fodern. Mae'r sefyllfa hon wedi bodoli ers llawer o flynyddoedd (rwyf yn gwybod fel cyn ddisgybl) – rwyf o'r farn ei bod yn annheg bod Ysgol Ein Harglwyddes yn cael ei hanwybyddu dro ar ^o^l tro. | | |
| 12.30 | Teimlaf ei bod yn annheg iawn bod yr awdurdod eto yn anwybyddu ysgol Ein Harglwyddes. Er ei bod yn ysgol ragorol ag iddi ethos gref, mae'r adeilad yn hen ac yn dlodaidd.<br>Mae'r systemau draeniau yn hynafol ac ni cheir cae ysgol ble gall y plant chwarae p^e^l-droed na cynryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Rwyf wedi gweithio yn yr ysgol am 9 mlynedd ac mae'n siom nad ydym wedi gwneud dim mwy o gynnydd na 9 mlynedd yn ^o^l mewn sicrhau tir neu adeilad a fyddai yn ein galluogi i fwrw ymlaen gydag ysgol fodern a fyddai'n bodloni anghenion ein plant. | | |
| 12.31 | Fel aelod o staff Ysgol Ein Harglwyddes, mae'n dristwch gennyf orfod datgan fy mod o'r farn nad yw'r ysgol bellach yn addas ar gyfer Cwricwlwm yr 21g. Yn 128 oed, mae'n deg dweud nad oes modd adfer pethau, mae'r adeilad yn rhy fach i gwrdd an gofynion, yn enwedig adeg yma o'r flwyddyn, yn gorfod mynd a'n disgyblion allan o'r ysgol fel y gallant gael mynediad llawn i gyfleusterau chwaraeon. Nid oes gennym ofod digonol i'n disgyblion gymryd rhan mewn llawer o chwraeon ysgol, oherwydd bod gennym iard fechan ar slant. Eto, mae Neuadd yr ysgol yn llawer rhy fychan i gynnal pob agwedd o chwaraeon, yn sicr, ni allem wahodd rhieni i wylio eu plant yn cymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon. Dyma enghraifft o'r hyn mae'n rhaid inni ei drefnu, fel bod ein disgyblion yn derbyn safon o addysg sy'n gweddu i'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 21g. Rydych yn nodi bod angen dod a PHOB ysgol ym Mangor i fyny i safon erbyn Medi 2020, eto, caiff ei awgrymu na fydd Ysgol Ein Harglwyddes yn derbyn unrhyw arian o Band A ac felly bydd yn rhaid aros a gweld OS daw arian trwodd yn Band B. I lawer, cawsom ein hanwybyddu am lawer iawn o flynyddoedd, am wahanol resymau ond yn bennaf oherwydd cost, ac eto mae'n teimlo fel pe bawn yn cael ein hanwybyddu. Mae gennych chi awdurdod Gwynedd gyfrifoldeb am yr holl ddisgyblion yn ardal Bangor, sy'n cynnwys EIN PLANT yma yn Ysgol EIn Harglwyddes. | | |